**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/10036/21

Y Cynghorydd Edgar Owen

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

10 Mehefin 2021

Annwyl Eirian,


Diolch am eich gohebiaeth ar 21 Mai ac am dynnu sylw at gynigion Cyngor Gwynedd mewn perthynas ag Incwm Sylfaenol Cyffredinol. Fi sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel un o'r agweddau niferus ar fy rôl newydd fel y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol.

Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru yn un o'n blaenoriaethau pwysicaf fel llywodraeth. Yn ei hanfod, mae Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn ymwneud â rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau, lliniaru tlodi a chael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles. Ein nod yw profi'r pethau hyn drwy'r cynllun peilot arfaethedig.

Rhaid gwneud llawer iawn o waith nawr i archwilio sut i ddatblygu'r cynllun peilot. Rhaid i ni sicrhau ei fod wedi'i gynllunio gyda chymorth amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, a'i fod yn tynnu ar brofiad yr Alban a gwledydd eraill ledled y byd.

Mae'n rhy fuan i gadarnhau unrhyw fanylion pellach ar hyn o bryd, ond hoffwn ddiolch i chi am dynnu fy sylw at y gwaith yr ydych yn ei wneud yng Ngwynedd, sy'n cyd-fynd yn agos â'r maes polisi newydd hwn. Rwy'n gobeithio bod mewn sefyllfa i rannu mwy am y cynllun peilot dros y misoedd nesaf.

Yn Gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.